



# Adferiad yn dilyn pandemig y Coronafeirws: Cyflenwi a chyllido gwasanaethau cyhoeddus

## Cyflwyniad

Ysgrifennwyd y papur hwn ym mis Gorffennaf 2020. Mae'n rhan o gyfres o chwe briffiad a gomisiynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd i lywio a herio strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ailadeiladu ac adfer yn dilyn pandemig y Coronafeirws.

Roedd y briffiadau'n canolbwytio ar bynciau a ddewiswyd gan y Gweinidogion. Roeddent yn adeiladu ar ein gwaith i gefnogi trafodaethau bord gron a alwyd ynghyd yn gynharach gan y Gweinidog ac roeddent yn helpu i ffurfio a goleuo gwaith Grŵp Arbenigo<sup>1</sup> a gyfarfu â'r Gweinidog rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020. Gwnaethom ysgrifennu casgliadau'r Grŵp a gyfrannodd at drafodaethau'r Cabinet am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau economaidd a chymdeithasol y pandemig.

Mae ffocws y papur hwn ar ddarparu ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n ystyried y dystiolaeth ar gyfer modelau o ddarparu gwasanaethau a'r opsiynau ar gyfer ariannu tymor hir, gan ganolbwytio ar ofal cymdeithasol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â gwneud awgrymiadau ar wella'r defnydd o dystiolaeth wrth lunio polisi.

## Negeseuon allweddol

- Nid gwaith partneriaeth a chyd-gynhyrchu'r ateb gorau bob tro ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, ond gall rhai gwensi a phwyntiau dysgu allweddol o'r ymateb i'r pandemig – yn benodol dulliau seiliedig ar 'le' gyda chymorth lleol – dywys rhaglenni lleol yn y maes hwn.
- Mae nifer o restri gwirio caffael ac arbrofion eisoes yn bodoli a gallai Llywodraeth Cymru helpu i wella safonau drwy weithredu neu gynorthwyo gweithrediad yr egwyddorion hyn, yn ogystal â chanolbwytio ar ddulliau cynaliadwy a seiliedig ar le.
- Mae pandemig y Coronafeirws wedi dangos pa mor bwysig yw dystiolaeth mewn polisi ac ymarfer. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i ysgogi, cynorthwyo a chydlynú'r broses o gasglu a defnyddio dystiolaeth ar draws gwahanol bartneriaid, polisiau ac ardaloedd daearyddol.
- Ar gyfer gwasanaethau fel gofal cymdeithasol, dylid ystyried modelau wedi eu hariannu o ddarparu. Ni ddangoswyd dystiolaeth o werth am arian opsiynau cyllid preifat, fel y model Cyd-

<sup>1</sup> Roedd y Grŵp Arbenigwyr yn cynnwys pedwar aelod sefydlog: Torsten Bell (Prif Weithredwr y Resolution Foundation), Rebecca Heaton (Pwyllgor newid hinsawdd y DU), Paul Johnson (Cyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau Cyllid) a Miatta Fahnbullah (Prif Weithredwr y Sefydliad Economeg Newydd).

fuddiannol, ond mae'n cynnig opsiwn oddi-ar y fantolen os na chodir trothwyon benthyciadau cyfalaf.

- Mae darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a thrafnidiaeth gyhoeddus teg, ariannol gynaliadwy ac o safon uchel yn her sylweddol yng Nghymru. Mae angen gwasanaethau hyblyg, seiliedig ar le, gyda'r awtonomi a'r adnoddau i ymateb i newidiadau mewn galw.
- Gallai blaenoriaethu mesurau hylendid a phellter cymdeithasol ar drafnidiaeth gyhoeddus, i leihau'r risg o heintio, ynghyd â negeseuon cyhoeddus clir, leihau ofnau pobl am ddiogelwch gwasanaethau bws a thrên a chynyddu defnydd.

## Adeiladu ar brofiadau diweddar o weithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu

Mae gweithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu wedi eu 'byddino' yng Nghymru dros yr argywng. Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth sydd bod yr un o'r ddua'n 'gweithio' i wella canlyniadau a gall y gost fod yn uchel (What Works Scotland, 2015; Sorrentino, Sicilia a Howlett, 2018). Mae'r cyd-destun sefydliadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru'n gymhleth ac aneffeithlon er y cafwyd enghreifftiau o ymarfer da rhwng gwahanol lefelau o lywodraeth yn ddiweddar. I weithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu'n effeithiol, rhaid:

- Grymuso'r partneriaethau presennol yn hytrach na chreu rhai newydd (Y Ganolfan Effaith Gyhoeddus, 2020);
- Cael eglurder a sicrwydd gyda strwythurau ariannol, wrth ddiffinio rolau, rhaglenni, prosesau a chanlyniadau (y Comisiwn Ewropeaidd, 2018; Steen a Brandsen, 2020);
- Gofod i negodi a thrafod rhwng partneriaid cyfartal (What Works

Scotland, 2015; McMullin, 2019; Turnhout, Metze, Wyborn, Klenk a Louder, 2020);

- Modelau a strwythurau addas i'r pwrrpas: bydd angen gwahanol strwythurau ac arweinyddiaeth leol gref ar wahanol ardaloedd a meysydd ar draws Cymru (Durose; Needham; Mangan a Rees, 2017; Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf, 2020); a
- Ymgysylltu gweithredu â mudiadau trydydd sector sydd yn y sefyllfa orau i gyd-gynhyrchu â chymunedau oherwydd eu dealltwriaeth o anghenion penodol (McMullin, 2019). Gallai cyd-gynhyrchu rymuso cymunedau i helpu eu hunain gan efelychu enghreifftiau diweddar o ymateb i'r pandemig (Wallace, White a Davidson, 2020).

## Mae pandemig y Coronafeirws hefyd wedi dangos y rôl ganolog y gall tystiolaeth ei chwarae mewn polisi ac ymarfer

Gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo gweithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu drwy:

- Defnyddio rhestr wirio partneriaethau fel bod partneriaid yn myfyrio ar eu rôl, ymrwymiadau, cyfrifoldebau a chyfngiadau cyn cydweithredu (OECD, 2006);
- Parhau i weithio'n agos â chynghorau a phartneriaid eraill i sicrhau ymateb lleol, cydgysylltiedig ac effeithiol i bandemig y Coronafeirws, a datganoli pŵer yn lleol (Christensen a Laegreid, 2021 ar gyfer enghreifftiau Norwyaid);
- Dysgu o raglenni fel Bargeinion Dinesig i Gymru (Senedd y DU, 2019) ac

- enghreiffiau o wirfoddoli a chynnwys cymunedau drwy'r argyfwng; a
- Cynorthwyo cyngorau i weithredu fel canolfannau gofal cymdeithasol gan ddod ag adnoddau cymunedau a thrydydd sector at ei gilydd ynghyd â phartneriaethau anffurfiol newydd (Talbot, 2020) a chyflymu gweithio'n hyblyg a chymunedol (Cydffederasiwn GIG Cymru, 2020; Bolton, 2015).

## Defnyddio tystiolaeth wrth lunio polisi

Mae rôl tystiolaeth ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn greiddiol i helpu i wneud penderfyniadau mewn amgylchedd cymhleth gyda nifer o wahanol randdeiliaid. Pwysleisiodd bandemig y Coronafeirws y rôl ganolog y gall tystiolaeth ei chwarae mewn polisi ac ymarfer (Shepherd, 2020). Yn y pen draw, bydd tystiolaeth ond yn goleuo dyfarniadau a phenderfyniadau gwleidyddol, gyda Gweinidogion yn cael eu dal i gyfrif. Y pedwar peth pwysicaf yw bod angen:

- Tystiolaeth perthnasol i Gymru fod ar gael.** Gellid gwneud hyn drwy gasglu a defnyddio data'n well, gyda Llywodraeth Cymru yn ariannu gwasanaeth i helpu gwasanaethau cyhoeddus i ddadansoddi a defnyddio eu data i deilwrio eu gwasanaethau (Bright; Ganesh; Seidelin a Vogl, 2019) a pharhau'r cysylltiadau â'r rhwydwaith What Works a chysylltiadau eraill i ddod â thystiolaeth i Gymru.
- Rhwydwaith effeithiol i gynhyrchu a rhannu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio,** yn enwedig rhwng llywodraeth genedlaethol a lleol a rhyng-leol. Brocera gweithredol, gyda chyswilt un-i-un, sy'n gweithio orau lle gall y bobl sy'n gwneud y penderfyniadau drafod problemau, helpu i lunio cwestiynau a chyfrannu at gasglu / creu tystiolaeth (h.y. cyd-gynhyrchu) fel bo'r atebion yn addas i'r pwnc (Dobbins; Hannah; Ciliska;

Cameron; Mercer; O'Mara; DeCorby a Robeson, 2009).

- Buddsoddi mwy mewn gwell a gwybodaeth gweision sifil a gweinidogion** am y broses o lunio polisi a sut i ddefnyddio tystiolaeth (e.e. Cynghrair ar gyfer gwersi meistr Tystiolaeth Ddefnyddiol ar gyfer Llywodraeth Cymru). Y nod yn y pen draw yw gwell a sut y mae'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn casglu, cyfuno, trawsnewid a defnyddio'r wybodaeth.
- Perthynas agosach rhwng prifysgolion a chymdeithas.** Gallai mwy o gydweithredu rhwng prifysgolion, polisi ac ymarfer gynorthwyo ffrydau refeniw prifysgolion ac, ar yr un pryd, gwell a llif y wybodaeth fel bo'r atebion yn cael eu goleuo gan y dystiolaeth orau sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu tystiolaeth am a wnaeth bolisi ddarparu ei ganlyniadau a sut i'w ddiwygio os oes angen (Tasnim, 2020).



## Gwneud defnydd gwell o gaffael ac ariannu yn sector cyhoeddus Cymru

Mae caffael yn werth £6.3 biliwn y flwyddyn yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020) gydag amryw o adolygiadau a phecynnau i geisio ei wneud yn fwy effeithlon (Bell, 2019), a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn enghraifft ddiweddar (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2020).

Gallai Cymru fabwysiadu rhaglenni caffael lleol llwyddiannus fel y model Preston yn Lloegr (Price, 2020) sy'n ceisio cynyddu'r manteision economaidd a chymdeithasol lleol drwy strategaethau caffael lleol. Gellid cefnogi Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) i fideo drwy wella'r wybodaeth a'r cyfathrebu (What Works – Twf Economaidd Lleol, 2019). Creodd Gyngor Dinas Manceinion rwydwaith o gyflenwyr lleol i ddeall ei gadwyn gyflenwi, er mwyn gwella canlyniad y caffael yn fwy na dim ond drwy ddarparu'r nwydd neu wasanaeth, gan arwain at 15.5% yn fwy o wariant gyda chyflenwyr Manceinion rhwng 2008-9 a 2014-5 (Jackson, 2016).

Mae angen pwrrpas clir ar gaffael cyhoeddus effeithiol, ynghyd â strategaethau hwylus, mwy o rannu gwybodaeth, cymorth i'r proffesiwn caffael (yn enwedig mewn llywodraeth leol) a mwy o ymrwymiad i gydweithredu (y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2013; Bell, 2019; Cully, 2019; Cyngor Cenedlaethol y Mudiadau Gwirfoddol, 2020). Mae angen arweinyddiaeth gref ar lefel leol a chenedlaethol i gyflwyno'r newidiadau hyn ynghyd â rhannu arferion da (Johnson, 2019).

## **Mae rôl gynyddol llywodraeth mewn gwasanaethau cyhoeddus wrth ymateb i bandemig y Coronafeirws yn gyfle i newid y modelau darparu er gwell**

### **Ariannu gwasanaethau cyhoeddus**

Esblygodd y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) o Fenter Cyllid Preifat (PFI) i ariannu prosiectau cyfalaf. Fodd bynnag mae'r model PFI wedi'i feirniadu am gynnig gwerth gwael am arian a bod yn seiliedig ar asesiad o werth diffygiol (NAO, 2018). Mae gwerth am arian y MIM eto i'w weld ond awgryma amcan-gostau ariannu drwy MIM y bydd yn 1.9-2.8 gwaith yn

fwy na chost yr ased (Llywodraeth yr Alban, 2019). Er bod y MIM wedi cyflwyno mwy o hyblygrwydd a rheolaeth i Lywodraeth Cymru dros PFI, mae potensial o hyd i ffioedd uchel gael eu codi. Er bod taliadau ar sail perfformiad yn eu lle, gallai darparu'r ased neu'r gwasanaeth yn wael, neu newid yn y galw am y gwasanaeth dros fywyd y prosiect, fod yn fwy costus i'w gywiro yn y tymor hir. Mae felly'n hollbwysig bod unrhyw bartneriaeth gyhoeddus / breifat yn cynnwys digon o le ar gyfer hyblygrwydd a throsolwg gan Lywodraeth Cymru gan gydbwyso'r risg rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat i sicrhau bod asedau a gwasanaethau'n addas i'r pwrpas.

Er bod angen dod o hyd i ffynonellau buddsoddi cyfalaf, mae'r galw am gyllid ar wariant dydd i ddydd i wella gwasanaethau fel gofal cymdeithasol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Os na fydd trothwyon benthyca ar gyfer gwariant dydd i ddydd yn cynyddu, gallai fod angen i Gymru ystyried opsiynau trethiant sy'n cronni'r risg ar draws cymdeithas i dalu am y gwasanaethau hyn. Mae'r opsiynau i'w hystyried yn cynnwys:

- Cynyddu treth incwm: Gallai Cymru ddefnyddio ei phwerau codi trethi newydd i gyflwyno treth gofal cymdeithasol, ond nid yw'r refeniw o hyn yn debygol o fod yn sylweddol (Ifan a Poole, 2018) ac efallai na fyddai'n hyfyw os bydd refeniw o drethi'n gostwng o ganlyniad i ddirwasgiad (Bottery; Varrow; Thorlby a Wellings, 2018).
- Byddai crona gofal cymdeithasol orfodol yn ddrytach i'w sefydlu na modelau talu wrth fynd o ariannu, ond yn decach ar draws y cenedlaethau: Byddai angen ei gweithredu'n gyflym i ateb y cynnydd disgwyliedig mewn galw dros y deng mlynedd nesaf. Gallai buddsoddi cadarn hefyd gynnig mwy o gyllid yn y tymor hir a bod yn ffynhonnell fuddsoddi ar gyfer prosiectau seilwaith risg isel yng Nghymru a fyddai'n dychwelyd elw i'r gronfa (Holtham, 2018).

- Cyflwyno model ariannu gyda'r cyfraniadau'n cynyddu gydag oed: Yn Japan, mae pawb dros 40 oed yn talu mewn i gronfa yswiriant gwladol sy'n darparu gofal cyffredinol i bobl dros 65 oed, er bod gan Japan broblemau tebyg o ran gweithlu ansefydlog a bu'n rhaid cynyddu'r taliadau i gynnal poblogaeth sy'n heneiddio (Curry, Castle-Clarke; a Hemmings, 2018).
- Gallai lefi tagfeydd fod yn un ffordd o annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus: Cynigiwyd codi tâl o £2 y dydd yng Nghaerdydd i bobl nad ydynt yn drigolion, gan godi arian i wella trafnidiaeth gyhoeddus. Rhaid i amcanion y lefi tagfeydd fod yn glir er mwyn asesu pa mor dderbyniol a fyddai i'r cyhoedd ac i gyflawni targedau (Liu et al., 2018) a dylid ystyried gwersi o gynigion a fethodd (Sheriff, 2018).



## **Modelau newydd o ddarparu gofal cymdeithasol a thrafnidiaeth gyhoeddus**

### **Gofal cymdeithasol**

Mae rôl gynyddol llywodraeth mewn gwasanaethau cyhoeddus wrth ymateb i bandemig y Coronafeirws yn gyfle i newid y modelau darparu er gwell. Mae gofal cymdeithasol yn wynebu pwysau cynyddol o ran cyllid a marchnad fregus oherwydd ffactorau fel capaciti prin ac amodau gwael i'r gweithlu. Gyda phrofffil gofal cymdeithasol wedi cynyddu yn y

misoedd diwethaf, mae'n amser da cynyddu ymgysylltiad dinasyddion a thrafod yr angen taer am fuddsoddi yn y sector ynghyd ag asesu anghenion a threfnu gofal yn well. Mae risg o ail-gydbwyo pethau, gan gynnwys gwneud y farchnad yn fwy bregus yn y tymor byr os bydd darparwyr yn gadael y farchnad, a chostau uwch o dalu mwy i weithwyr. Fodd bynnag gellid gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn nifer o ffyrdd.

## **Gallai neges gyhoeddus glir i gyfathrebu gweithrediad mesurau diogelwch a hylendid helpu i gael pobl i deithio mwy ar fws a thrên**

Gallai darparu gwasanaethau'n nes at adra, gyda ffocws ar atal ac anghenion yr unigolyn, fod yn ddatblygiad er gwell. Mae'r model Buutrzorg yn yr Iseldiroedd yn ddarparwr gofal cartref di-wneud-elw wedi'i arwain gan dimau o nrysos cymunedol sy'n darparu gwasanaethau meddygol a gwasanaethau eraill yn y cartref. Mae'r model wedi'i ganmol yn uchel gan staff a chwsmeriaid gyda thystiolaeth bod gofal o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu am gost is (Gray et al., 2015; Bennett et al., 2018). Fodd bynnag mae darparu modelau fel hyn yn y DU ar hyn o bryd yn heriol, gan gynnwys diffyg gweithwyr, cyfngiadau buddsoddi cychwynnol a gwahaniaethau yn y system daliadau. Mae Brexit yn cyflwyno heriau pellach i'r gweithlu. Bydd polisi mewnfudo a chryfder y bunt o'i chymharu ag arian cyfred Ewropeaidd eraill yn chwarae'r rôl sylweddol mewn penderfynu faint o weithwyr a gollwn (Holmes et al., 2019). Mae amodau gwaith gwael yn un cymhelliad yn erbyn ymuno â'r sector ac y gellid ei wella i leihau nifer y swyddi gwag presennol ac yn y dyfodol. Mae ymdrechion i integreiddio mwy ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd, ac er bod gan y polisi hwn lawer o gryfderau ac yn rhoi cyfle i ddarnu llai ar wasanaethau gofal,

mae risg iau ynghlwm wrth integreiddio'r GIG a gofal cymdeithasol yn llwyr. Mae'r rhain yn cynnwys ffocws ariannol ar drin materion iechyd, yn lle ar atal a gofal.

## Trafnidiaeth

Mae Cymru'n wynebu dwy her i drafnidiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd; pryderon am y risg o heintio, a'r problemau mwy hirdymor o gwmpas gwerth am arian a thegwch darparu gwasanaeth o dan y modelau presennol. Gwelsom gynnydd yn y defnydd o geir a thrafnidiaeth gyhoeddus ers i'r cyfnod clo lacio ond mae pryeron o gwmpas diogelwch trafnidiaeth gyhoeddus (Gerhold, 2020; Stansbury; Spear; Pruvot; ac Alport, 2020) ynghyd â phatrymau newydd o weithio'n golygu na fydd y galw blaenorol efallai'n dychwelyd (yr Asiantaeth Ynni Ryngwladol, 2020). Mae'r lleihad sydyn mewn defnydd yn dangos dylanwad y llywodraeth ar ymddygiad teithio. Gallai negeseuon cyhoeddus clir yn cyfathrebu'r mesurau diogelwch a hylendid sydd yn eu lle helpu i gael mwy o bobl i deithio ar fws a thrên (Morawska; Tang; Bahnfleth; Bluyssen; Boerstra; Buonanno; a Wierzbicka 2020; Greenhalgh; Schmid; Czypionka; Bassler; a Gruer 2020). Bydd ystod o ymatebion polisi a gynigiwyd yn flaenorol i wella gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol a bws yng Nghymru'n parhau i fod yn berthnasol wrth symud ymlaen. Mae'r rhain yn cynnwys cymhellion newydd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn rheolaidd, fel disgownt am swmp-brynu a gostyngiad mewn pris tocynnau, sy'n rhaid eu gwerthuso i asesu'r dystiolaeth dros gynyddu hygyrchedd i rai ar incwm isel. Nid yw dadreoleiddio'r rhwydweithiau bws wedi gwella gwasanaethau fel y gobeithiwyd (Preston, 2014) ac mae cyfreithiau nawr i gynyddu'r bartneriaeth rhwng darparwyr ac awdurdodau lleol, ehangu gwasanaethau bwrdeistrefol a datblygu masnachfreintiau. Dangoswyd fod cystadlu i redeg llwybrau teithio awdurdodau lleol wedi llwyddo i gynyddu teithwyr yn y DU (Nash a Smith, 2020). Drwy gyflwyno newidiadau o'r fath i gaffael trafnidiaeth gyhoeddus, gallai

Llywodraeth Cymru sicrhau gwasanaeth tecach ar draws Cymru a gweithio'n ehangach ar ddileu'r rhwystrau i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (Begg, 2016).



## Ffynonellau

Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf (2020).

**Weekly Mayoral COVID19 Press Conference.**

Begg, D. (2016). **The Impact of Congestion on Bus Passengers. Greener Journeys.** Ar gael yn: [https://greenerjourneys.com/wp-content/uploads/2016/09/TTBusReport\\_Digital-FINAL-With-Changes-1.pdf](https://greenerjourneys.com/wp-content/uploads/2016/09/TTBusReport_Digital-FINAL-With-Changes-1.pdf)

Bell, M. (2019). **Caffael cyhoeddus cynaliadwy.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn: <https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/caffael-cyhoeddus-cynaliadwy/>

Bennett, L; Honeyman, M; Bottery, S. (2018). **New models of home care.** The King's Fund. Ar gael yn: <https://www.kingsfund.org.uk/publications/new-models-home-care>

Bolton, J. (2015). **Emerging practice in outcome based commissioning for social care.** Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC), Ar gael yn: [https://ipc.brookes.ac.uk/publications/pdf/John\\_Bolton\\_Outcome\\_Based\\_Commissioning\\_Paper\\_April\\_2015.pdf](https://ipc.brookes.ac.uk/publications/pdf/John_Bolton_Outcome_Based_Commissioning_Paper_April_2015.pdf)

Bottery, S., Varrow, M., Thorlby, R., Wellings, D. (2018). **A fork in the road: Next steps for**

**social care funding reform.** The King's Fund. Ar gael yn:

<https://www.kingsfund.org.uk/sites/default/files/2018-05/A-fork-in-the-road-next-steps-for-social-care-funding-reform-May-2018.pdf>

Bright, J; Ganesh, B.; Seidelin, C.; Vogl, T. (2019). **Data Science for Local Government.** Sefydliad Rhyngrywd Rhydychen, Prifysgol Rhydychen. Ar gael yn:

<https://smartcities.oi.ox.ac.uk/wp-content/uploads/sites/64/2019/04/Data-Science-for-Local-Government.pdf>

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2020). **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020.** Ar gael yn:

<https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2020/05/FInal-Welsh-FG-Report.pdf>

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2018). **Trafnidiaeth Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.** Ar gael yn:

<https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2018/11/20180912-Trafnidiaeth-addas-ar-gyfer-Cenedlaethaur-Dyfodol-1.pdf>

Cully, J. (2019). **Creating social value through procurement: how big business can open the door to social enterprise.** Amey. Ar gael yn:

<https://www.amey.co.uk/media/insights/2019/october/creating-social-value-through-procurement-how-big-business-can-open-the-door-to-social-enterprise/>

Curry, N., Castle-Clarke, S., & Hemmings, N. (2018). **What can England learn from the long-term care system in Japan?** Ymddiriedolaeth Nuffield.

Cyddfederasiwn GIG Cymru (2020). **Partnership working across Wales to support the response to COVID-19.** Wedi'i ad-alw o

<https://www.nhsconfed.org/resources/2020/08/partnership-working-across-wales-to-support-the-response-to-covid-19-and-resetting-nhs-services>

Cyngor Cenedlaethol y Mudiadau Gwirfoddol (2020). **New procurement guidance in response to Covid-19: Implications for charities.** Ar gael yn:

<https://blogs.ncvo.org.uk/2020/03/26/new-procurement-guidance-in-response-to-covid-19-implications-for-charities/>

Christensen, T. a Laegreid, P. (2020). **Balancing governance capacity and legitimacy: How the Norwegian government handled the COVID-19 crisis as a high performer.** Public Administration Review, ar-lein.

Dobbins, M; Hannah, S.E.; Ciliska, D.; Cameron, R.; Mercer, S.L.; O'Mara, L.; DeCorby, K.; Robeson, P. (2009). **A randomized controlled trial evaluating the impact of knowledge translation and exchange strategies.** Implementation Science, 4, tud. 1–16.

Dromey, J. a Hochlaf, D. (2018). **Fair Care: A workforce strategy for social care.** Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus. Ar gael yn:

<https://www.ippr.org/research/publications/fair-care>

Durose, C. et al. Needham, C.; Mangan, C.; Rees, J. (2017). **Generating 'good enough' evidence for co-production.** Evidence & Policy: A Journal of Research, Debate and Practice, 13(1), tud. 135–151.

Gerhold, L. (2020). **COVID-19: Risk perception and coping strategies.** Ar gael yn:

<https://doi.org/10.31234/osf.io/xmpk4>

Gray, B; Sarnak, D; Burgers, J. (2015). **Home Care by Self-Governing Nursing Teams: The Netherlands' Buurtzorg Model.** Ar gael yn:

<https://www.commonwealthfund.org/publications/case-study/2015/may/home-care-self-governing-nursing-teams-netherlands-buurtzorg-model>

Greenhalgh, T., Schmid, M. B., Czypionka, T., Bassler, D., & Gruer, L. (2020). **Face masks for the public during the covid-19 crisis.** British Medical Journal, 369.

- Holmes, J., Baird, Beccy, McKenna, Helen (2019). **Brexit: the implications for health and social care**. The King's Fund. Ar gael yn: <https://www.kingsfund.org.uk/publications/articles/brexit-implications-health-social-care>
- Holtham, Gerald. (2018). **Talu am Ofal Cymdeithasol: Adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru**. Ar gael yn: <https://gweddill.gov.wales/docs/caecd/publications/180628-paying-for-social-careen.pdf>
- Ifan, G. a Poole, Gareth, E. (2018). **Y Sylfaen Drethu Gymreig: Risgau a Chyfleoedd ar ôl Datganoli Cyllidol**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn: [https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/Y-Sylfaen-Drethu-Gymreig\\_WCPP-Final-180627.pdf](https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/Y-Sylfaen-Drethu-Gymreig_WCPP-Final-180627.pdf)
- Jackson, M. (2016). **Creating a good local economy through procurement**. Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop - URBACT. Ar gael yn: [https://urbact.eu/sites/default/files/pages\\_de\\_procurer\\_state\\_of\\_the\\_art.pdf](https://urbact.eu/sites/default/files/pages_de_procurer_state_of_the_art.pdf)
- Johnson, C. (2019). **5 peth y dysgom ni am gaffael**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn: <https://www.wcpp.org.uk/cy/sylwebaeth/5-peth-y-dysgom-ni-am-gaffael/>
- Liu, Z., Shiakoti, N. a Bie, Y., 2018. **Measuring the public acceptance of urban congestion-pricing: a survey in Melbourne (Australia)**. Transport, 33(4), tud. 902-912.
- Llywodraeth Cymru (2020). **Cynnydd tuag at ddatblygu tirwedd caffael newydd yng Nghymru** Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/tirwedd-caffael-newydd-ynghymru.pdf>
- McMullin, C. (2019). **The who, what, how and why of co-production of public services**. Ar gael yn: <https://caitlinmcmullin.com/2019/03/28/the-who-what-how-and-why-of-co-production-of-public-services/>
- Morawska, L., Tang, J. W., Bahnfleth, W., Bluysen, P. M., Boerstra, A., Buonanno, G., ... & Wierzbicka, A. (2020). **How can airborne transmission of COVID-19 indoors be minimised?** Environment International, 142.
- Nash, C. a Smith, A., 2020. **Public transport procurement in Britain**. Research in Transportation Economics, tud.100847.
- OECD (2006). **Successful Partnerships: A Guide**. Fforwm LEED ar Bartneriaethau a Llywodraethu Lleol. Ar gael yn: <https://www.oecd.org/cfe/leed/36279186.pdf>
- Preston, J. (2014). **A Fare Deal? Regulation and Financing of Bus Services in Wales**. Y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru. Ar gael yn: <https://www.wcpp.org.uk/cy/publication/regulation-and-financing-of-bus-services-in-wales/>
- Price, J. (2019). **The Preston Model: A panacea for Wales?** <https://www.wcpp.org.uk/commentary/the-preston-model-a-panacea-for-wales/>
- Sadik-Khan, J. a Solomonow, S. (2020). **Fear of Public Transit Got Ahead of the Evidence**. The Atlantic. Ar gael yn: <https://www.theatlantic.com/ideas/archive/2020/06/fear-transit-bad-cities/612979/>
- Senedd y DU (2019). **City Deals and Growth Deals in Wales - Conclusions and Recommendations**. Ar gael yn: <https://whatworks.blog.gov.uk/2020/07/15/will-this-policy-work/>
- Shepherd, J. (2020). **Evidence and guidance for better public services: Making the most of the evidence ecosystem**. Prifysgol Caerdydd.
- Sherriff, G.A., (2018). **Communication and governance challenges in Greater Manchester's 'congestion charge' referendum**. Prifysgol Salford. Ar gael yn: <http://usir.salford.ac.uk/id/eprint/46348/1/Sherriff%20202018%20Communication%20and%20governance%20challenges%20IET%20USIR%20version.docx.pdf>

Sorrentino, M., Sicilia, M. a Howlett, M. (2018). **Understanding co-production as a new public governance tool.** Policy and Society, 37(3), tud. 277–293.

Stansbury, J.; Spear, B.; Pruvot, A.; Alport, G. (2020). **Glimpses of Recovery.** Oliver Wyman. Ar gael yn:  
<https://www.oliverwyman.com/content/dam/oliverwyman/v2/publications/2020/jun/Glimpses%20of%20Recovery%20-%20Traveler%20Sentiment%20Survey%20Edition%201.pdf>

Steen, T a Brandsen, T. (2020). **Coproduction during and after the COVID-19 Pandemic: Will It Last.** Public Administration Review, 80(5), tud. 851-855.

Swyddfa Archwilio Cymru (2019). **Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.** Ar gael yn:  
[https://www.audit.wales/sites/default/files/adolyg\\_iad-o-fyrrdau-gwasanaethau-cyhoeddus-cymraeg\\_11.pdf](https://www.audit.wales/sites/default/files/adolyg_iad-o-fyrrdau-gwasanaethau-cyhoeddus-cymraeg_11.pdf)

Tasnim, S. (2020). **Will this policy work?** Swyddfa'r Cabinet - Tîm What Works. Ar gael yn:  
<https://whatworks.blog.gov.uk/2020/07/15/will-this-policy-work/>

Turnhout, E.; Metze, T.; Wyborn, C.; Klenk, N.; Louder, E. (2020). **The politics of co-production: Participation, power, and transformation.** Current Opinion in Environmental Sustainability, 42, tud. 15–21.

Wallace, J., White, D. a Davidson, S. (2020). **Building Back for the Better: A perspective from CUKT.** Ymddiriedolaeth Carnegie y DU. Ar gael yn:  
<https://www.carnegieuktrust.org.uk/publications/building-back-for-the-better-a-perspective-from-cukt/>

What Works Local Economic Growth (2019). **Local procurement.** Ar gael yn:  
<https://whatworksgrowth.org/resources/local-procurement-1/>

What Works Scotland (2015). **Partnership working across UK public services.** Adolygiad tystiolaeth. Ar gael yn:  
<http://whatworksscotland.ac.uk/wp-content/uploads/2015/12/WWS-Evidence-Review-Partnership-03-Dec-2015-.pdf>

Y Comisiwn Ewropeaidd (2018). **Co-production - Enhancing the role of citizens in governance and service delivery.** Coflen dechnegol Rhif 4. Ar gael yn:  
<https://ec.europa.eu/esf/transnationality/sites/esf/files/news/attachments/technical-dossier-n4-layout-final.pdf>

Y Ganolfan Effaith Gyhoeddus (2020). **How the UK can respond to COVID-19: Drawing insights from around the world for the UK's regional and local economies.** Ar gael yn:  
<https://resources.centreforpublicimpact.org/production/2020/06/CPI-Report-How-the-UK-can-respond-to-COVID19.pdf>

Y Sefydliad dros Lywodraeth (2018). **Financing Infrastructure.** Ar gael yn:  
<https://www.instituteforgovernment.org.uk/explainers/financing-infrastructure>

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2013). **Improving government procurement.** Ar gael yn: <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2013/03/government-proc-full-report.pdf>

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2018). **PFI1 a PFI2.** Ar gael yn: <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2018/01/PFI-and-PF2.pdf>

Ymddiriedolaeth Nuffield (2019). **How to fund social care?** British Journal of Healthcare Assistants, 13(5), 252-255.

Ymddiriedolaeth Nuffield (2020). **What does the social care workforce look like across the four countries?** Ar gael yn:  
<https://www.nuffieldtrust.org.uk/news-item/what-does-the-social-care-workforce-look-like-across-the-four-countries>

Yr Asiantaeth Ynni Ryngwladol (2020).  
**Changes in transport behaviour during the Covid-19 crisis.** Ar gael yn:

<https://www.iea.org/articles/changes-in-transport-behaviour-during-the-covid-19-crisis>

## Manylion yr awduron

James Downe, Laura Bennett, Eleanor MacKillop a Catherine Foster – Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Ein gwaith arall ar bandemig y Coronafeirws

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o brosiectau i ddarparu dystiolaeth annibynnol i wneuthurwyr polisiau a gwasanaethau cyhoeddus ar yr adferiad economaidd a chymdeithasol yn dilyn pandemig y Coronafeirws. Yn ogystal â phapurau a baratowyd ar gyfer y Grŵp Arbenigwyr a alwyd ynghyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru, rydym wedi arwain asesiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth ar Gefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer cynllun Llywodraeth y DU ar 'Rebuilding a Resilient

Britain' dan arweiniad Syr Patrick Vallance; wedi cyhoeddi casgliadau chwe bord gron arbenigol ar adferiad yn dilyn y pandemig; wedi cyhoeddi dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Ein Dyfodol'; ac wedi cynhyrchu cyfres o flogiau ar faterion allweddol, gan gynnwys unigrwydd yn ystod y cyfngiadau ar symud, y goblygiadau i economi Cymru, pwysigrwydd ysgogiad i'r economi werdd i gynorthwyo adferiad, a dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu dystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y Gwasanaeth Sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol

a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio y DU. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

**Yr Athro Steve Martin**

+44 0 29 2087 5202

[steve.martin@wcpp.org.uk](mailto:steve.martin@wcpp.org.uk)

## Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG



[www.wcpp.org.uk/cy](http://www.wcpp.org.uk/cy)



029 2087 5345



[info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)



@WCfPP